


FFERM SOLAR & BESS MAENOR SEALAND



Fferm Solar hyd at 89MW a System Storio Ynni Mewn Batris hyd at 40MW arfaethedig yn Sealand, Sir y Fflint.

Mae Renewable Connections yn ymchwilio i botensial fferm solar hyd at 89MW a system storio ynni mewn batris (BESS) o hyd at 40MW yn Sealand, Sir y Fflint. Pan fydd ar waith, gallai'r fferm solar gyflenwi digon o bŵer i hyd at 33,575 o gartrefi, gan wneud cyfraniad gwerthfawr at fynd i'r afael â newid hinsawdd yn Sir y Fflint a'r Deyrnas Unedig.

Bydd y BESS yn golygu bod modd storio ac ailddosbarthu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn ôl yr angen. Mae technoleg BESS yn helpu i reoli'r adegau pan fydd y galw am ynni ar ei uchaf ac ar ei isaf, gan gefnogi grid trydan cenedlaethol mwy sefydlog a dibynadwy.

Wrth i ni baratoi cais i'w gyflwyno i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, rydyn ni'n cynnal ymgynghoriad anffurfiol i rannu ein cynlluniau arfaethedig â chymunedau lleol ac i ofyn am eich adborth.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect, ein cynlluniau, a sut gallwch ymgynghori â ni ar gael ar ein gwefan: www.sealandmanorsolarfarm.co.uk

Dweud eich Dweud

Rydym yn gwahodd aelodau o'r gymuned i roi eich sylwadau ar y cynnig – naill ai drwy wefan y prosiect, drwy e-bost neu drwy'r post gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir. Bydd sylwadau'r gymuned leol yn cael eu hystyried wrth lunio'r cais cynllunio terfynol a gyflwynir.

Bydd ein hymgyngoriad anffurfiol yn cael ei gynnal rhwng dydd Gwener 14 Mawrth a dydd Llun 21 Ebrill 2025. Yn nes ymlaen eleni, byddwn yn cynnal cam ymgynghori ffurfiol, a bydd y manylion yn cael eu hysbysebu ymlaen llaw. Mae'r holl adborth yn bwysig i ni, ac rydyn ni'n croesawu sylwadau ac adborth ar unrhyw adeg yn ystod proses datblygu'r prosiect – hyd at gyflwyno'r cais i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

Rydym yn cynnal dau Ddigiwyddiad Arddangos Cyhoeddus ym mis Mawrth 2025, yn The Fig Tree, Eglwys Sant Bartholomew, Old Sealand Rd, Sealand, Sir y Fflint CH5 2LQ.

📅 2pm i 7pm, ddydd Mercher 26 Mawrth 2025

📅 10am i 2pm, ddydd Iau 27 Mawrth 2025

Fe wnaethom ysgrifennu at dros 1800 eiddo yng nghyffiniau'r safle, gan wahodd pobl i'r digwyddiadau ymgynghori anffurfiol.



Arbed hyd at 16,902 tunnell o CO₂ y flwyddyn



Hyd at 40 MWh o gapasiti storio ynni mewn batris



Pweru hyd at 33,575 o gartrefi

Cam 1

Dewis safle
Gwanwyn 2024

Cam 2

Cyn Ymgeisio
Hydref 2024

Cam 3

Ymgynghoriad
Cymunedol Anffurfiol
Gwanwyn 2025

Cam 4

Ymgynghoriad
Cymunedol Ffurfiol
Haf 2025

Cam 5

Cyflwyniad Cynllunio
Haf/Hydref 2025

Cam 6

Adeiladu
2029+



Y SAFLE ARFAETHEDIG

Mae Fferm Solar a BESS arfaethedig Maenor Sealand yn cynnwys tua 94.22ha o dir amaethyddol sy'n cylchdroi cnydau ar hyn o bryd. Mae'r safle wrth ymyl Afon Dyfrdwy, yn edrych dros barth diwydiannol Cei Connah, ac mae trosfordd yr A494 yn edrych drosto.

Mae ein cynlluniau yn dal yn y camau datblygu, felly bydd ein cynigion dylunio yn esblygu wrth i ni gasglu mewnbwn lleol ac ystyried canlyniadau ein hasesiadau amgylcheddol.

Byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys pecyn o fanteision tirwedd, ecoleg a bioamrywiaeth a allai gynnwys gosod blychau tylluanod gwyn, blychau nythu i adar, cychod gwenyn, pentyrrau o foncyffion, adfer ffiniau caeau traddodiadol, a manau gaeafgysgu eraill fel pentyrrau rwbel bach wedi'u claddu sy'n addas ar gyfer rhywogaethau ymlusgiaid, amffibiaid a phryfed.

Byddai unrhyw wrychoedd presennol yn cael eu cryfhau gyda gwrychoedd ychwanegol a thrwy blannu coed, lle bo angen, yn ogystal â phlannu lliniarol newydd posibl o amgylch ffiniau'r Safle, er mwyn darparu sgrin naturiol lle bo hynny'n briodol. Gellir defnyddio'r tir rhwng ac o dan y paneli i wella bioamrywiaeth, ac fel tir pori ar gyfer defaid.





Heb eu llunio i raddfa. Cynllun at ddibenion dangosol yn unig.

PAM ADNEWYDDADWY?

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod targed cyfreithiol rwymol i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 100% erbyn 2050. Yng Nghymru, mae llywodraethau lleol a chenedlaethol wedi datgan argyfyngau hinsawdd a natur, ac maent yn cytuno bod angen gweithredu ar frys i symud oddi wrth ddefnyddio tanwyddau ffosil. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflymu'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy, gan anelu at sicrhau bod Cymru'n diwallu 100% o'i hanghenion trydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2035.

Fel un o'r technolegau adnewyddadwy y gellir ei rhoi ar waith gyflymaf, mae solar yn dod i'r amlwg fel ateb allweddol yn y chwyldro ynni hwn. Drwy harneisio ynni'r haul, gallwn helpu Cymru a'r DU i leihau allyriadau, hybu annibyniaeth

ynni, a braenaru'r tir ar gyfer dyfodol cynaliadwy am genedlaethau i ddod.

Solar hefyd yw un o'r mathau glanaf a rhataf o gynhyrchu ynni. Byddai Fferm Solar a BESS Maenor Sealand yn gwneud cyfraniad ystyrlon at anghenion ynni Cymru a'r DU drwy ddarparu ynni gwyrd i hyd at 33,575 o gartrefi bob blwyddyn. Dros oes y prosiect, amcangyfrifir y byddai'n arbed 676,000 tunnell o CO₂ rhag cael ei allyrru.

Mae'r safle hwn wedi cael ei ddewis ar ôl cynnal proses helaeth yn edrych ar safleoedd ar draws yr ardal, lle ystyriwyd dynodiadau amgylcheddol, nodweddion ffisegol y safleoedd, a'r angen am dirfeddiannwr cefnogol.



CWESTIYNAU CYFFREDIN

Fydd hyn yn effeithio ar y ffyrdd lleol?

Bydd offer yn cael ei ddanfôn i'r safle am gyfnod o ryw 39 wythnos yn ystod y gwaith adeiladu. Bydd Renewable Connections yn rhoi mesurau ar waith i reoli effeithiau'r traffig adeiladu, a bydd y mesurau hyn yn cael eu cynnwys mewn Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cais cynllunio. Pan fydd y safle'n weithredol, bydd ymweliadau cynnal a chadw yn cael eu cynnal yn anaml.

A fydd unrhyw effaith barhaol?

Dros dro ydy ffermydd solar, ac felly bydd y tir yn cael ei ddychwelyd i fod yn dir amaethyddol ar ôl tynnu'r offer oddi yno ar ddiwedd oes y prosiect. Cynigir y bydd y prosiect yn para hyd at 40 mlynedd. Nid yw'r safle'n dir llwyd ac nid oes modd ei droi'n ddatblygiad preswyl na masnachol ar ôl datgomisiynu'r safle.

A yw'r dechnoleg yn peri risg i iechyd?

Nac oes - mae solar yn dechnoleg oddefol nad yw'n cynhyrchu unrhyw sgil-gynhyrchion niweidiol. Ar gyfer agwedd BESS y prosiect, bydd batris LFP (neu Ffosffad Haearn Lithiwm) yn cael eu defnyddio. Mae batris LFP yn thermol ac yn gemegol sefydlog, heb unrhyw risg o mygdarthau neu ollyngiadau nwy. Maent wedi'u gwneud o ddeunyddiau toreithiog, diwenwyn fel haearn, copr a graffit.

What are the benefits to the local community?

Mae Renewable Connections wedi ymrwymo i gynyddu'r manteision i'r gymuned leol. Byddwn yn sefydlu Cronfa Budd Cymunedol ac yn cefnogi achosion da lleol. Bydd y prosiect yn cynnwys amrywiaeth o welliannau ecolegol a bywyd gwyllt ar y safle.

AMDANOM NI

Mae tîm Renewable Connections yn datgloi cannoedd o fegawatiau o solar, capasiti storio a hydrogen ar hyd a lled y DU, gan gynyddu annibyniaeth ynni a chefnogi targedau sero net y wlad.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu prosiectau o ansawdd uchel sy'n sicrhau buddion i drigolion lleol a'r amgylchedd naturiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn
sealandmanorsolarfarm.co.uk

Yn cyflawni anghenion ynni'r dyfodol heddiw.

www.renewableconnections.co.uk